**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**PWYLLGOR CYSAG**
**25 Tachwedd 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor CYSAG Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn rhithiol ar 25 Tachwedd 2021.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

**Aelodau Etholedig:**
Cynghorydd Chris Bithell (CB); Cynghorydd Dave Mackie (DM); Cynghorydd Janet Axworthy (JA);
Cynghorydd Adele Davies-Cooke (ADC); Cynghorydd Marion Bateman (MB) a Cynghorydd Paul Cunningham (PC)

**Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru (Esgobaeth Llanelwy)**
Jennie Downes (JD);
Marina Parsons (MP), (Pennaeth Ysgol Wirfoddol Trelawynd)

**Cynrychiolwyr ysgol uwchradd**
Catherine McCormick (CM), Pennaeth Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, Y Fflint

**Cynrychiolwyr Athrawon Cynradd**
Amira Mattar (AM), Ysgol Gynradd Westwood, Bwcle

**Cyfarfod Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd**
Simon Piercy

**Eglwys Bresbyteraidd Cymru**
Y Parchedig Huw Powell Davies

**Cynrychiolwyr Addysg**
Vicky Barlow (VB) - Uwch Reolwr Systemau Gwella Ysgol

Hefyd yn bresennol - Kim Brookes, Uwch Reolwr, Addysg ac Ieuenctid (Clerc); Maureen Potter (MP) Clerc Gwasanaethau Democrataidd

Cadarnhaodd MP fod y cyfarfod yn cael ei recordio. Croesawodd CM gydweithwyr i'r cyfarfod.

**YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau gan John Morgan; Claire Homard

## 27. DATGANIAD O DDIDDORDEB - CÔD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL

JD ynghylch ei gwaith cyfredol ar ddysgu proffesiynol ar eitem 5 ar yr agenda. Aelodau Etholedig a oedd yn llywodraethwyr ysgol.

## 28. COFNODION CYFARFOD 7 HYDREF 2021

Cytunwyd fel cofnod cywir.    Dim materion yn codi

## 29. AELODAETH A CHYLCH GORCHWYL AR GYFER CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG NEWYDD

Dywedodd KB bod canllaw Llywodraeth Cymru ddim ar gael eto ar y trefniadau cylch gorchwyl ar gyfer y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog newydd. Efallai bydd Aelodau yn dymuno rhoi sylw ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r trefniadau gwaith y pwyllgor megis cyfnodau mewn swydd a threfn cadeirydd. Efallai bydd rhaid ystyried trefniadau ynghylch unrhyw newidiadau i bwyllgor cyfansoddiad y Cyngor ar nifer yr aelodau etholedig.

**Cytunwyd:** Aelodau i aros tan fydd canllaw ar gael ar aelodaeth newydd cyn ystyried unrhyw newidiadau i drefniadau gwaith.
Dywedodd VB yr addawyd y canllaw erbyn diwedd y flwyddyn ond y gallai fod yn ddefnyddiol cael cyflwyniad gan Gydlynydd Dyneiddiwr Cymru sydd wedi bod yn cyfarfod gyda CYSAG eraill.

**Cytunwyd:** i anfon gwahoddiad am gyfarfod i'r Cydlynydd Dyneiddiwr Cymru. Cynigiodd y Cynghorydd CB bod angen rhoi ystyriaeth i grwpiau/ cymdeithasau eraill. Dywedodd VB ei bod yn edrych ar ddata gan ystadegau cenedlaethol i hysbysu'r math o gynrychioliad sydd yn adlewyrchu orau'r ardal.

## 30. DYSGU PROFFESIYNOL - TÎM DATBLYGU DYSGU PROFFESIYNOL RVE

Dywedodd VB bod Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGC) yn gweithio ar adnoddau datblygu proffesiynol RVE ar ran Llywodraeth Cymru, gan geisio am ddatganiadau o ddiddordeb gan 10 gyfranogwyr i ymuno â'r gweithgor. Adnoddau dwyieithog a ddatblygwyd yn Nhymor y Gwanwyn ac wedi'u dosbarthu drwy HwB.

Mewn ymateb i'r Cynghorydd CB, dywedodd VB bod y cyfranogwyr yn adnodd ychwanegol ar draws Cymru a bydd yn cael eu cefnogi gan gynghorwyr Addysg Grefyddol. Tra bod hyn yn gadarnhaol bod cyllid ychwanegol ar gael, bydd y gweithgor yn cael ei fonitro gan CCCYSAGC a fydd eisiau gwneud cais am ragor o gyllid yn ôl yr angen.

Cadarnhaodd JD bod y dull yn ychwanegol i gyfranogwyr yr Eglwys yng Nghymru sydd hefyd yn datblygu adnoddau o'r fframwaith ac yn cydnabod yr adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Roedd yn annog cyfranogwyr i ymuno â'r grŵp fel cyfle datblygu proffesiynol dda.

## 31. CYNHADLEDD MAES LLAFUR A GYTUNWYD 2022

Cadarnhaodd mai cyngor CCYSAGC oedd mabwysiadu'r maes llafur erbyn mis Medi 2022 gyda'r Panel Ymgynghori Cenedlaethol i Addysg Grefyddol yn chwilio am ganllaw ar gyfer CYSAG at sut i roi'r maes llafur gyda'i gilydd. Cynigiodd VB ein bod yn dechrau gyda gweithgor i baratoi drafft, ar ôl y cyfarfod ar 9 Chwefror gyda dyddiad pellach i'w gymeradwyo,

**Cytunwyd** i agor y gynhadledd yn dilyn y cyfarfod ar 9 Chwefror 2022.

## 32. CYFARFOD CCYSAGC TYMOR YR HYDREF (23 TACHWEDD 2021)

Nododd VB er bod y rhan fwyaf o waith rheolaidd y Pwyllgor megis derbyn adroddiadau Estyn a data perfformiad ysgol heb fod yn bosibl yn ddiweddar, diolchodd i'r aelodau oedd wedi cynrychioli'r awdurdod yng nghynhadledd CCYSAGC, Cynghorwyr DM; MP a CM.

Ar nodyn penodol yn y Gynhadledd oedd myfyrdod y Cadeirydd a roddodd ddechrau cadarnhaol i'r cyfarfod. Cafwyd gyflwyniadau gan Gonsortia rhanbarthol, er eu bod wedi dangos gwahanol ffyrdd o wneud pethau, roeddynt yn falch o adrodd o ranbarth y Gogledd bod CYSAG lleol yn parhau yn weithredol.

## 33. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR GYFER 2020/21

Cadarnhaodd VB ei fod dal yn ofyniad i gynhyrchu adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd y flwyddyn.

**Cam Gweithredu:** VB i baratoi drafft terfynol ar aelodaeth a gwaith CYSAG eleni a'i anfon i aelodau i gael unrhyw sylwadau drwy'r Cadeirydd.

**Cam Gweithredu**: Cadeirydd i ysgrifennu'r Rhagair i'r Adroddiad.

## 34. GOHEBIAETH

Llythyr gan CCYSAGC yn cynghori ar gyfleoedd datblygu proffesiynol.
Dim mater arall.

## 35. CYFARFODYDD Y DYFODOL

Cynhelir cyfarfodydd CYSAG Sir y Fflint yn y dyfodol am 4.00pm:

Dydd Mercher 9 Chwefror 2022
Dydd Mercher 8 Mehefin 2022

Daeth y cyfarfod i ben am 16.33